



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau i ddiogelu eich eiddo annomestig bach rhag tân



Canllawiau ar gydymffurfio â chyfraith diogelwch tân i'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch eiddo annomestig bach

2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i Fire@llyw.cymru

Gorffennaf 2023

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru yn unol ag Erthygl 50 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Cynnwys

Rhagair	4
1. Cyflwyniad	5
2. Eich cyfrifoldebau	7
3. Aseiad risg tân	8
4. Peryglon tân	9
5. Mesurau amddiffyn rhag tân	12
6. Rhestr wirio asesu risg tân	22
7. Cyfeiriadau	29

Rhagair

Gwybodaeth am y Canllawiau hyn

Cyhoeddir y Canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Canllawiau yn gydymaith "lefel mynediad" i ganllawiau eiddo mwy, sy'n cael eu rhestru ar y diwedd, y dylid eu defnyddio os nad yw eich eiddo yn dod o fewn cwmpas y Canllawiau cyfredol hyn.

Statws y Canllawiau hyn

Bwriad y Canllaw yw cefnogi'r defnydd o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (fel y'i diwygiwyd). Lluniwyd y Canllawiau hyn, yn rhannol, i fodloni rhwymedigaeth Gweinidogion Cymru i gynhyrchu canllawiau i gynorthwyo personau cyfrifol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth.

Mae'r Canllawiau hyn ar ffurf cyfarwyddyd ac argymhellion i gefnogi gweithredu deddfwriaeth diogelwch tân. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth honno ac i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol os oes angen.

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Canllawiau hyn i ddarparu cyngor syml ac ymarferol i gynorthwyo pobl sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân mewn eiddo annomestig bach i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân¹ a gwneud eu heiddo'n ddiogel rhag tân.

Mae deddfwriaeth diogelwch tân yn gosod dyletswydd gyffredinol o ofal diogelwch tân ar gyflogwyr a phersonau sydd â rheolaeth ar eiddo i sicrhau diogelwch gweithwyr a diogelwch pobl sy'n ymweld â'ch eiddo, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, contractwyr ac ati. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd y bydd tân yn cynnau a sicrhau y gall pobl adael i le diogel os bydd tân.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi gynnal asesiad risg tân addas a digonol i nodi'r risg y mae tân yn ei beri i bobl yn eich eiddo, a'ch galluogi i gymryd camau rhesymol i'w diogelu rhag tân.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eich ardal chi fel arfer yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth diogelwch tân. Er na all y Gwasanaeth Tân ac Achub gynnal asesiad risg tân ar eich rhan, mae llawer o wasanaethau yn darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau bach. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar-lein ar wefan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol.

Os yw eich gweithle wedi'i leoli mewn adeilad sy'n cael ei ddefnyddio gan fusnesau eraill hefyd, mae'n debygol y bydd mwy nag un person â chyfrifoldeb am ddiogelwch tân yn yr adeilad neu rannau o'r adeilad. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n ofynnol i chi, yn ôl y gyfraith, gydweithio a chydlynu eich gweithredoedd gyda deiliaid eraill, yn ogystal â phersonau eraill megis asiantau rheoli a landlordiaid, a allai fod yn gyfrifol am rannau cyffredin a/neu gyfleusterau cyffredin yn yr adeilad. Yn gyffredinol, bydd hyn yn cynnwys cydlynu eich mesurau diogelwch tân gydag eraill, cymryd rhan mewn driliau tân wedi'u trefnu a dilyn gweithdrefnau gwacáu cyffredin.

Nid yw'n fwriad i'r Canllawiau byr hyn ddarparu dehongliad manwl o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Ar gyfer union ofynion y ddeddfwriaeth, terminoleg gyfreithiol a'i diffiniadau, dylid cyfeirio at y ddeddfwriaeth ei hun. Mae'r Canllawiau hyn i raddau helaeth yn osgoi'r defnydd o derminoleg gyfreithiol, ond maen nhw'n darparu arweiniad ymarferol ar gamau y dylid eu cymryd i fodloni'r ddeddfwriaeth.

Efallai y bydd angen gwasanaethau trydydd parti ar lawer o fesurau sy'n cael eu nodi fel rhai sy'n angenrheidiol drwy gymhwyso'r Canllawiau hyn, megis contractwyr sy'n gallu gwneud gwaith ar systemau canfod tân a larwm, drysau sy'n gwrthsefyll tân a systemau diogelu rhag tân eraill. Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod contractwyr yn gymwys i gyflawni'r gwaith rydych yn talu iddynt ei wneud, gan mai chi sy'n gyfrifol yn y pen draw bod eu gwaith yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân. Mae defnyddio contractwyr sydd wedi'u hardystio o dan gynlluniau cymeradwyo neu ardystio diwydiant perthnasol yn helpu i wirio cymhwysedd.

Cwmpas y Canllawiau hyn

Bwriedir i'r Canllawiau hyn gael eu defnyddio mewn eiddo annomestig bach gyda chynlluniau syml, risg tân isel, gyda pheryglon tân cyfyngedig a nifer fach o weithwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyfyngu i eiddo sy'n cynnwys dim mwy nag islawr, llawr gwaelod a llawr cyntaf, lle:

- mai chi sy'n rheoli'r eiddo cyfan
- nad yw'r arwynebedd ar unrhyw lawr yn fwy na 280m²
- nad yw'r pellter mwyaf y bydd angen i unrhyw un gerdded o unrhyw bwynt yn yr adeilad i allanfa i'r awyr agored yn fwy na 25m
- mae gwelediad cymharol glir ar draws arwynebedd y llawr, ar bob llawr
- nad oes unrhyw brosesau peryglus, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thorri, weldio a phrosesau tebyg, a dim storio na defnyddio sylweddau peryglus, megis hylifau fflamadwy iawn, ac eithrio mewn symiau o ddim mwy na 50 litr
- mae prosesau coginio yn bell o allanfeydd, fel nad oes potensial iddynt atal y gallu i ddianc pe bai tân
- nad oes neb yn cysgu yn yr eiddo.

Nid yw'r Canllawiau hyn yn briodol:

- os yw eich eiddo y tu allan i'r cwmpas a ddisgrifir uchod
- mae eich eiddo yn rhan o adeilad mwy, fel canolfan siopa
- os yw cynllun rhagofalon tân yn eich eiddo yn wahanol iawn i'r rhai a argymhellir yn Adran 5 y Canllawiau hyn.

O dan unrhyw un o'r tri amgylchiad uchod, dylech seilio'r rhagofalon tân yn eich eiddo, a'ch asesiad risg tân, ar y canllawiau a nodir yn Adran 7 y canllawiau hyn.

Mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig. Mae canllawiau ar wahân yn berthnasol yn Lloegr. Nid yw'n fwriad i'r Canllawiau gael eu defnyddio yn yr Alban na Gogledd Iwerddon, lle mae deddfwriaeth diogelwch tân gwahanol (er yn debyg) yn berthnasol.

2. Eich cyfrifoldebau

Os ydych chi'n berson sydd â chyfrifoldeb am yr eiddo, o dan ddeddfwriaeth diogelwch tân, mae'n rhaid i chi:

- gynnal asesiad risg tân ar gyfer yr eiddo
- sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol yn cael eu darparu
- cynnal y mesurau diogelwch tân hynny
- bod â gweithdrefnau tân digonol i sicrhau bod gweithwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o beth i'w wneud os bydd tân, a'u bod yn deall y mesurau diogelwch tân yn yr eiddo
- cydweithredu ag unrhyw berson arall sydd â dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch tân i gydlynu'r mesurau diogelwch tân y mae pob un ohonoch yn gyfrifol amdanynt
- adolygu'ch asesiad risg tân a'ch mesurau diogelwch tân yn rheolaidd a chymryd camau lle bo angen i fynd i'r afael â risgiau newydd neu gynyddol.

3. Asesiad risg tân

Mae ‘Risg Tân’ fel arfer yn cael ei ddiffinio fel cyfuniad o’r tebygolrwydd y bydd tân yn cynnau a chanlyniadau tân ar ddiogelwch pobl yn yr eiddo.

Mae’r asesiad risg tân yn cynnwys archwilio’r eiddo i nodi peryglon tân posibl, er mwyn sicrhau bod mesurau digonol i atal tân rhag cynnau a bod mesurau diogelu rhag tân digonol i gadw gweithwyr, ymwelwyr, contractwyr ac eraill, sydd yn yr eiddo yn gyfreithlon, yn ddiogel rhag tân.

Yn aml, yn achos eiddo bach o’r math a amlinellwyd ar ddechrau’r Canllawiau hyn, mae’n bosibl cwblhau paratoi asesiad risg tân, heb wybodaeth arbenigol, drwy ddilyn y camau syml a nodir yn y Canllawiau hyn. Fodd bynnag, os nad ydych yn teimlo eich bod chi’n gallu gwneud hynny, dylech ddefnyddio gwasanaeth asesydd risg tân cymwys².

Dylai canfyddiadau eich asesiad risg tân gael eu cofnodi a’u cadw fel eu bod ar gael i’w harchwilio gan yr awdurdod gorfodi (yr awdurdod tân ac achub fel arfer). Dylai’r cofnod gynnwys camau i’w cymryd i liniaru’r risg. Dylid cofnodi hyn o fewn “cynllun gweithredu” sydd wedi’i ymgorffori yn yr asesiad risg tân.

Mae templed rhestr wirio addas ar gyfer cofnodi canfyddiadau eich asesiad risg tân ar gael yn Adran 6 o’r Canllawiau hyn.

² Canllawiau ar ddewis Asesydd Risg Tân Cymwys. Fersiwn 3. 01/10/20. Ffederasiwn y Sector Tân. Ar gael i’w lawrlwytho yn: www.nationalfirechiefs.org.uk/write/MediaUploads/Grenfell/FSF_Guide_October_20.pdf

4. Peryglon tân

Perygl tân yw unrhyw beth sydd â'r potensial i gynnau tân, neu gyfrannu at dân, megis ffynonellau tanio neu gronni deunyddiau llosgadwy (unrhyw hylif neu solid sy'n gallu tanio a llosgi) yn ddiangen. Os byddwch yn nodi unrhyw beryglon tân, dylech naill ai gael gwared ar y perygl neu, os nad yw hyn yn ymarferol, cymryd camau i leihau'r risg i bobl.

Mae'r isadrannau canlynol yn trafod peryglon tân cyffredin mewn eiddo annomestig bach, ac yn darparu enghreifftiau o fesurau rheoli y gellir eu defnyddio i leihau'r risg.

Gosodiadau ac offer trydanol

Mae offer trydanol a gwifrau yn achosion cyffredin o dân.

Dylai'r gosodiad trydanol yn eich eiddo fod yn destun archwiliad a phrawf gan berson cymwys³ o leiaf bob pum mlynedd. Dim ond person cymwys ddylai ymgymryd ag unrhyw waith ar y gosodiad trydanol.



Dylai offer trydanol cludadwy fod yn destun archwilio a phrofi mewnol o bryd i'w gilydd (yr hen enw am hyn oedd profi offer cludadwy neu PAT) yn unol â Chod Ymarfer IET ar gyfer Arolygu a Phrofi Offer Trydanol ar Waith⁴.

Dylid osgoi defnyddio ceblau estyniad, lidiau rhydd ac addasyddion i bweru offer cludadwy lle bynnag y bo modd.

Ysmygu

Mae ysmygu mewn eiddo annomestig wedi'i wahardd gan y gyfraith; dylech sicrhau felly fod cyflogeion, ymwelwyr ac unrhyw un sy'n gweithio yn yr eiddo yn ymwybodol o hyn.



Dylai unigolion sy'n dymuno ysmygu wneud hynny'n glir o'r eiddo, a dylid cynnig darpariaeth addas, fel biniau diogelwch tân, ar gyfer gwaredu deunyddiau ysmygwyr yn ddiogel.

Dylid arddangos o leiaf un arwydd 'Dim ysmygu'.

3 Enghraifft o berson cymwys fyddai contractwr trydanol wedi'i ardystio gan y Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol (NICEIC) neu aelod o'r Gymdeithas Contractwyr Trydanol (ECA).

4 Cod Ymarfer IET ar gyfer Arolygu a Phrofi Offer Trydanol ar Waith. Pumed Argraffiad.

Wrth gynnal archwiliadau rheolaidd o'r eiddo, dylech chwilio am unrhyw arwyddion o ysmegu anghyfreithlon mewn ystafelloedd storio, ystafelloedd ategol ac ardaloedd "cudd" eraill.

Llosgi bwriadol

Mae diogelwch ffisegol a gwyliadwriaeth gadarn gan reolwyr a chyflogeion yn bwysig i leihau'r risg o losgi bwriadol.

Dylech wneud yn siŵr bod deunyddiau llosgadwy, biniau sbwriel ac ailgylchu yn cael eu cadw'n glir o'r eiddo (yn enwedig unrhyw ffenestri neu fylchau) a/neu eu cadw mewn storfa neu ardal ddiogel. Dylai bod modd cloi unrhyw finiau sy'n agos at yr adeilad ac sy'n hygyrch i bobl o'r tu allan.

Dylid cadw storfeydd ac ystafelloedd peiriannau dan glo i atal mynediad heb awdurdod.

Gwresogi

Dylai systemau gwresogi fod yn destun gwaith cynnal a chadw blynyddol gan contractwr cymwys.



Dylid osgoi defnyddio gwresogyddion cludadwy cyn belled ag y bo modd. Os ydyn nhw'n cael eu defnyddio, dilynwch ganllawiau'r gwneuthurwr ar eu defnydd diogel a defnyddiwch wresogyddion sydd â switshys torri cyflenwad awtomatig yn unig. Peidiwch â gosod gwresogyddion yn agos at ddeunyddiau llosgadwy neu ar lwybrau dianc. Lle bo'n bosibl, dylid osgoi'r mathau mwy peryglus o wresogyddion, fel tanau bar pelydrol neu wresogyddion LPG.

Coginio

Dylid cymryd mesurau addas i atal tanau o ganlyniad i goginio neu ailgynhesu bwyd.

Peidiwch byth â gadael bwyd sy'n coginio heb oruchwyliaeth, sicrhewch fod offer yn cael eu cadw'n lân, eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da, a'u bod yn cael eu gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Dylid glanhau unrhyw hidlwyr neu ddwythellau yn rheolaidd er mwyn atal dyddodion fflamadwy rhag cronni.

Dylai cyfarpar coginio nwy fod yn destun gwaith cynnal a chadw rheolaidd gan berson cymwys.

Lle bo'n bosibl, dylai swmp o olew coginio gael ei storio y tu allan i'r eiddo, yn ddelfrydol.



Cadw tŷ

Mae cadw tŷ da, a hynny'n ddyddiol, yn hanfodol i leihau'r risg o dân.

Dylid cadw deunyddiau llosgadwy yn glir o ffynonellau tanio a/neu wres.

Dylid rhoi sylw arbennig i ystafelloedd storio neu gypyrddau sy'n cynnwys ffynonellau tanio a gwres.

Dylid cadw'r llwybrau dianc yn glir bob amser.



Contractwyr

Dylai contractwyr sy'n gwneud gwaith yn yr eiddo fod yn ymwybodol o reolaethau ac amodau diogelwch tân er mwyn lleihau'r risg o dân yn ystod gwaith cynnal a chadw a/neu waith adeiladu. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys cyhoeddi trwyddedau gwaith a/neu drwyddedau gwaith poeth i reoli gweithgareddau risg uwch, fel y rhai sy'n cynnwys defnyddio gwres.

Sylweddau Peryglus

Os ydych chi'n defnyddio neu'n storio sylweddau peryglus, fel hylifau neu ddeunyddiau fflamadwy, bydd angen i chi sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u storio'n ddiogel i leihau'r risg o dân.



Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach a rhestr lawn o ddyletswyddau yng nghyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, "A brief guide to the Dangerous Substances and Explosive Atmospheres Regulations".⁵

⁵ Controlling fire and explosion risks in the workplace. A brief guide to the Dangerous Substances and Explosive Atmospheres Regulations. Cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: www.hse.gov.uk/pubns/indg370.htm

5. Mesurau amddiffyn rhag tân

Ar ôl nodi unrhyw beryglon tân posibl ac asesu a yw'r mesurau rheoli presennol yn ddigonol ai peidio i atal tanau rhag digwydd, y cam nesaf yw ystyried beth fyddai'n digwydd pe bai tân yn cynnau.

Bydd y risg o dân, fel sy'n cael ei bennu gan eich asesiad risg tân, yn pennu lefel y mesurau diogelu rhag tân cyffredinol sy'n ofynnol yn eich eiddo i sicrhau diogelwch pobl. Ymhlith y materion i'w hystyried mae:

- defnydd a deiliadaeth yr eiddo
- nifer a lleoliad allanfeydd tân
- yr angen am unrhyw arwyddion allanfa dân
- yr angen am oleuadau dianc brys
- a oes angen system larwm tân
- a ddylai unrhyw system larwm tân gynnwys unrhyw allu i ganfod tân
- yr angen am ddiffoddyddion tân.

Yn gyffredinol, mwya'n byd yw'r risg, mwya'n byd o fesurau diogelu rhag tân y bydd angen i chi eu cymryd i wneud eich eiddo yn ddiogel rhag tân. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd canlyniad eich asesiad risg o dân yn dangos nad oes angen unrhyw fesurau ychwanegol arnoch y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes ar waith.

Felly, mae'r asesiad risg yn sylfaenol i'r ffordd y mae'r gyfraith sy'n rheoli diogelwch tân mewn eiddo yn gweithredu. Cydnabuwyd, yn enwedig mewn eiddo bach, mai'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i asesu risg yw'r bobl sy'n gweithredu ac sydd â rheolaeth dros yr eiddo.

Yn gyffredinol, mae argymhellion yn y canllawiau hyn ar fesurau diogelu rhag tân yn berthnasol i sefyllfaoedd nodweddiadol mewn eiddo lle mae'r risg o dân yn isel, ac sy'n gofyn am ddarparu lefelau cyfyngedig o fesurau diogelu rhag tân i sicrhau bod pobl yn ddiogel rhag tân.

Ffyrdd o Ddianc

Y ddau brif ffactor sy'n penderfynu a all pobl adael eich eiddo yn ddiogel os bydd tân yw:

- nifer a lleoliad allanfeydd sy'n arwain at le diogel yn glir o'r eiddo
- pa mor bell y mae angen i bobl deithio i gyrraedd allanfa ("pellter teithio").

Dylid cyfyngu'r nifer o bobl ar unrhyw lawr gyda dim ond un llwybr ymadael i uchafswm o 60.

Yn ddelfrydol, ni ddylai llwybrau dianc i'r cyhoedd fynd drwy ystafelloedd fel ceginau, storfeydd neu ystafelloedd peiriannau.


Gorau po leiaf yw'r pellter teithio i adael yr eiddo, a gorau po fwyaf o allanfeydd sydd ar gael. Ni ddylid ystyried y pellteroedd teithio a nodir isod fel pellteroedd rhagnodol y mae angen eu bodloni ym mhob math o eiddo a ddisgrifir isod. Wrth amcangyfrif pellter teithio, rhaid ystyried teithio o gwmpas rhwystrau, megis rheseli, byrddau, ac ati, yn hytrach na'r pellter llinell syth o unrhyw bwynt i allanfa.

Uchafswm pellter teithio nodweddiadol

a. Eiddo sy'n cynnwys llawr gwaelod, llawr gwaelod a llawr cyntaf neu llawr gwaelod ac islawr:


mesur 25m o unrhyw ran o'r eiddo i ddrws ymadael terfynol sy'n arwain yn uniongyrchol at le diogel, yn glir o'r eiddo⁶ (gweler Ffigurau 1 a 2 isod). Nid yw'n ofynnol i risiau sy'n mynd i loriau cyntaf neu isloriau gael eu hamgáu gyda deunyddiau sy'n gwrthsefyll tân (gweler Ffigurau 3 a 4 isod).

Ffigur 1 – Llawr gwaelod, allanfa unigol





→ Cyfeiriad teithio

Ffigur 2 – Llawr gwaelod, allanfeydd amgen i gyfeiriadau gwahanol





Ffigur 3 – Llawr gwaelod ac islawr



→ Cyfeiriad teithio

⁶ Mae'r pellter hwn yn seiliedig ar eiddo risg isel fel y nodir yn adran 'Cwmpas y Canllawiau hyn' ar dudalen 1 a 2.

Ffigur 4 – Llawr gwaelod a llawr cyntaf




→ Cyfeiriad teithio

b. Eiddo sy'n cynnwys llawr gwaelod, islawr a llawr cyntaf:


mesur o 25m o unrhyw ran o'r eiddo i ddrws ymadael terfynol sy'n arwain yn uniongyrchol at le diogel, yn glir o'r eiddo⁷. Lle mae grisiau ar wahân sy'n arwain at yr islawr a'r llawr cyntaf, dylai naill ai'r grisiau o'r islawr i'r llawr gwaelod, neu'r grisiau o'r llawr cyntaf i'r llawr gwaelod, gael eu hamgáu mewn deunyddiau sy'n gwrthsefyll tân. Dylai'r grisiau sydd wedi'i hamgáu ymgorffori, o fewn y parth hwnnw, ddrws sy'n arwain yn uniongyrchol i'r awyr agored (gweler Ffigur 5). Lle mae grisiau unigol a pharhaus yn gwasanaethu'r tri llawr, dylid amgáu'r grisiau cyfan mewn deunyddiau sy'n gwrthsefyll tân; o fewn parth y grisiau, dylai fod allanfa yn syth i'r awyr agored (gweler Ffigur 6).

7 Mae'r pellter hwn yn seiliedig ar eiddo risg isel fel y nodir yn adran 'Cwmpas y Canllawiau hyn' ar dudalen 1 a 2.


Ffigur 5 – Grisiau ar wahân



Ffigur 6 – Grisiau unigol



 Cyfeiriad teithio

 Wal wedi'i hadrannu sy'n gwrthsefyll tân

 Drws FD30S gyda dyfais hunan-gau

Gwarchod llwybrau dianc

Yn y rhan fwyaf o eiddo bach o ddim mwy na dau lawr sy'n bodloni'r uchafswm pellter teithio, mae'n annhebygol y bydd angen amddiffyniad ychwanegol rhag tân y tu hwnt i'r rhai a amlinellir uchod, megis parwydydd neu ddrysau sy'n gwrthsefyll tân, i ddiogelu llwybrau dianc. Os oes amheuaeth, dylech ofyn am gyngor arbenigwr diogelwch tân cymwys.

Mewn eiddo tri llawr, dylid amgáu'r grisiau amgaeedig a ddisgrifir yn b. uchod gyda deunyddiau sy'n darparu galli i wrthsefyll tân am 30 munud (e.e. haen o fwrdd plastr 12mm wedi'i osod ar bob ochr i waith styd pren). Dylai'r drysau sy'n agor i'r grisiau gynnig y gallu i wrthsefyll tân am 30 munud, gyda dyfeisiau hunan-gau wedi'u gosod arnynt.

Mae'r gallu gan ddrysau tân modern i wrthsefyll tân am o leiaf 30 munud o leiaf os ydyn nhw wedi bod yn destun prawf gwrthsefyll tân cyfredol. Yn y drysau hyn, mae sribedi chwyddedig wedi'u gosod ar ymylon a phen y drysau neu'r fframiau. Mae'r sribedi yn chwyddo pan fydd tân ac yn selio'r bylchau o amgylch y drysau. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu cyfuno â seliau mwg i atal mwg rhag pasio drwy'r bylchau rhwng y drws a'r ffrâm – mae'r rhain yn edrych fel seliau atal gwynt. Mae drysau sydd â sribedi a seliau mwg cyfun wedi'u gosod yn cael eu galw'n ddrysau FD30S; mae'r rhif yn cynrychioli'r cyfnod o allu gwrthsefyll tân mewn munudau a'r ôl-ddodiad S yn nodi presenoldeb sêl fwg.


Cyfeirir at ddrysau tân hŷn a brofwyd i safon prawf gwrthsefyll tân cynharach fel 'drysau tân tybiedig'. Fel arfer, nid oes sribedi chwyddedig a seliau mwg wedi eu gosod ar ddrysau o'r fath. Fodd bynnag, os ydyn nhw mewn cyflwr da ac yn ffitio'n dda yn eu fframiau, bydd drysau tân tybiedig, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynnig lefel ddigonol o ddiogelwch tân mewn eiddo bach ac ar y cyfan, ni fydd angen eu newid.

Byddai drysau o'r fath o adeiladwaith solet, tua 44mm o ran trwch ac fel arfer yn cau i rabedi 25mm. Yn gyffredinol, nid yw drysau pren tenau neu bren haenog, neu ddrysau gyda phaneli gwydr, yn cynnig digon o allu i wrthsefyll tân, nac ychwaith drysau gyda chraidd gwag (yn aml wedi'u llunio o bren haenog ar ffrâm bren).

Mae bylchau rhwng drws a ffrâm yn caniatáu i fwg ledaenu. Ni ddylai maint y bwlch fod yn fwy na 4mm, ac eithrio ar waelod y drws, lle dylai'r bwlch fod mor fach ag y bo'n ymarferol, gyda'r arfer gorau yn uchafswm bwlch o 4mm, gan sicrhau nad yw'r drws yn debygol o ddal ar y llawr hyd yn oed os yw'r drws yn disgyn ychydig ar y colfachau.

Os nad yw'r drysau presennol yn gwrthsefyll tân, byddai angen iddynt gael eu disodli gan ddrysau hunan-gau FD30S newydd.

Ystafelloedd mewnol



Os oes gennych ystafell(oedd) yn eich eiddo sy'n cael ei/eu defnyddio gan staff neu ymwelwyr, lle mai'r unig ffordd allan yw drwy ystafell arall, gall tân yn yr ystafell allanol atal pobl yn yr ystafell fewnol rhag dianc. Er mwyn osgoi hyn, dylid darparu ystafelloedd mewnol gydag **un** o'r canlynol:

- panel clir rhwng y ddwy ystafell i ganiatáu i bobl yn yr ystafell fewnol weld os bydd tân wedi cynnau yn yr ystafell allanol

- synhwyrdd/synwyrddion mwg yn yr ystafell allanol sy'n gallu cael ei glywed yn yr ystafell fewnol, i roi rhybudd cynnar i'r bobl o dân yn yr ystafell allanol – gweler “Ffyrdd o Roi Rhybudd Pan Fydd Tân” isod.

Nid yw hyn yn berthnasol os yw'r ystafell fewnol yn cael ei defnyddio fel ystafell storio neu ystafell beiriannau yn unig, neu i unrhyw ystafelloedd tebyg lle mae pobl yn bresennol am gyfnodau byr yn unig.

Ni ddylai'r ystafell allanol fod yn un lle mae'r risg o dân yn uchel (e.e. cegin, ystafell boeler ac ati).

Drysau allanfa dân

Yn y rhan fwyaf o eiddo bach gyda nifer cyfyngedig o bobl (llai na 60), bydd y drysau mynedfa ac allanfa arferol sy'n cael eu defnyddio bob dydd gan staff neu aelodau o'r cyhoedd yn ddigonol i'w defnyddio mewn argyfwng.

Byddai drws allanfa safonol, 850mm o led, yn ddigonol i ganiatáu i 100 o bobl adael yn ddiogel. Fodd bynnag, os bydd mwy na 60 o bobl yn defnyddio drws allan, dylai'r drws agor am allan, oni bai bod modd ei gadw ar agor bob amser.

Fel arfer, ni fyddai angen unrhyw fesurau ychwanegol (y tu hwnt i'r gofynion cynnal a chadw a nodir yn ddiweddarach yn y Canllawiau hyn) er mwyn sicrhau:

- nad yw'r drysau ar glo, fel ei bod yn hawdd i'w hagor mewn argyfwng heb ddefnyddio allwedd, tocyn adnabod neu god. Lle bydd angen i aelodau o'r cyhoedd agor drws dan glo, dylid gallu datgloi'r drws gyda bar gwthio neu bad gwthio

- nad oes unrhyw rwystrau i gyrraedd y drysau
- bod y drysau'n arwain at le diogel, yn glir o'r eiddo.

Ffyrdd o ddianc i bobl sydd angen cymorth

Dylid gwneud trefniadau digonol ar gyfer cael pob person allan o'r eiddo yn ddiogel heb ymyrraeth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys gweithwyr anabl ac aelodau o'r cyhoedd, ond hefyd unrhyw rai â rhesymau corfforol neu feddyliol eraill dros fod angen cymorth i adael os bydd argyfwng.

Yn ddelfrydol, dylai unrhyw drefniadau a/neu addasiadau a wneir i'r eiddo ganiatáu i bawb sydd angen rhyw fath o gymorth ddianc heb gymorth os bydd tân.

Dylid trafod a chytuno ar gynlluniau personol gadael mewn argyfwng gyda phob gweithiwr sy'n anabl yn barhaol neu dros dro sydd angen cymorth corfforol arnynt am ryw reswm.

Dylid ystyried cynlluniau gadael generig hefyd ar gyfer cael ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd a allai fod angen cymorth allan o'r eiddo.

Mae gwybodaeth fanylach am ffyrdd o ddianc i bobl anabl yng Nghanolllaw Llywodraeth y DU 'Fire safety risk assessment: means of escape for disabled people'.⁸

8 www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-means-of-escape-for-disabled-people

Arwyddion allanfa dân

Yn y rhan fwyaf o eiddo bach sy'n dod o fewn cwmpas y Canllawiau hyn, mae'r allanfeydd tân a'r llwybrau dianc yn debygol o fod yn amlwg ac yn cael eu defnyddio bob dydd. Fel arfer, ni fydd angen darparu unrhyw arwyddion allanfa dân, yn enwedig mewn adeiladau ag un allanfa.

Mewn eiddo sydd â mwy nag un llwybr dianc, ac unrhyw lwybr heb fod mewn defnydd rheolaidd, mae'n bosibl y bydd angen rhai arwyddion allanfa dân, yn enwedig os nad yw'r llwybrau i allanfeydd amgen yn amlwg.

Goleuadau dianc mewn argyfwng

Goleuadau dianc mewn argyfwng yw'r enw ar oleuadau sy'n darparu golau ar lwybrau dianc (wedi'u pweru o fatris) os yw'r goleuadau artiffisial arferol yn methu.

Yn gyffredinol, os oes angen goleuadau artiffisial arnoch i weld eich ffordd allan o'r eiddo, bydd angen goleuadau dianc mewn argyfwng hefyd.

Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o eiddo llawr gwaelod bach sy'n dod o fewn cwmpas y Canllawiau hyn, gyda digon o olau benthyg allanol (e.e. o lampau stryd) y mae disgwyl iddo fod ar gael ar bob cyfnod perthnasol, ni fydd angen goleuadau dianc mewn argyfwng fel arfer.

Ym mhob eiddo arall sy'n dod o fewn cwmpas y Canllawiau hyn, dylid darparu goleuadau dianc mewn argyfwng i oleuo llwybrau ymadael pan fydd y goleuadau artiffisial arferol yn methu.

Dylid darparu goleuadau dianc mewn argyfwng i oleuo allanfeydd a llwybrau ymadael yn glir, gan gynnwys grisiau, coridorau ac ardaloedd heb oleuadau naturiol, megis isloriau.

Ffyrdd o roi rhybudd pan fydd tân

Mewn adeiladau un llawr gyda chynlluniau agored a nifer fach o bobl, gallai'r rhybudd fod ar ffurf gweiddi "tân". Fel arall, gellid seinio'r larwm â llaw, gan ddefnyddio cloch neu seiren i'r perwyl hwnnw.

Mewn adeiladau o fwy nag un llawr, lle byddai'r dull uchod o gyfleu rhybudd yn annibynadwy, dylid gosod system larwm tân trydanol. Dylai'r systemau hyn gael pwyntiau 'torri gwydr' a seinyddion larwm tân, wedi'u cysylltu â phanel rheoli.

Mewn eiddo o fwy nag un llawr, lle gallai tân gynnau a pharhau heb ei ganfod yn ystod ei gamau cynnar, efallai y bydd angen i'r system larwm tân ymgorffori synwryddion tân awtomatig. Yn gyffredinol, byddai'r rhain ar ffurf synwryddion mwg neu, yn achos ceginau neu ystafelloedd eraill lle byddai synwryddion mwg yn achosi larymau ffug, synwryddion gwres.

Mewn eiddo heb system larwm tân trydanol, a heb fod angen un ar y cyfan, ond sydd ag ystafelloedd mewnol heb olwg ddigonol o'r ystafell fynediad gysylltiedig, gellid defnyddio larymau mwg domestig cysylltiedig, wedi'u pweru gan y prif gyflenwad trydan, i roi rhybudd cynnar o dân i bobl mewn ystafell fewnol.

Diffoddyddion tân

Yr argymhelliad yw bod cam cyntaf i ymladd tân yn cael ei ddarparu. Mae diffoddyddion tân nid yn unig yn fuddiol wrth fynd i'r afael â tân yn ei gamau cynnar, er mwyn sicrhau diogelwch pobl, ond maen nhw hefyd yn helpu i amddiffyn eich eiddo rhag difrod.



Dylid darparu diffoddwr tân gyda chynnwys sy'n seiliedig ar ddŵr i ddelio â thanau deunyddiau llosgadwy. Dylid darparu diffoddwr carbon deuocsid hefyd i ddelio â thanau sy'n ymwneud ag offer trydanol. Mae rhai diffoddyddion tân amlbwrpas yn gallu delio â'r ddau fath o dân.

Yn y rhan fwyaf o eiddo sy'n dod o fewn cwmpas y Canllawiau hyn, byddai diffoddwr tân sy'n cynnwys dŵr (efallai yn cael ei ategu gan ddiffoddwr carbon deuocsid) ar bob llawr yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Os oes risg yn sgil coginio, gydag offer ffrio dwfn neu offer tebyg, dylid darparu blanced dân a diffoddwr tân Dosbarth F (math o ddiffoddydd penodol ar gyfer tanau braster ac olewau) yn y gegin neu'r ardal goginio.

Ni ddylid darparu diffoddyddion tân powdr amlbwrpas, gan nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn manau caeedig.

Dylech wneud yn siŵr eich bod chi a'ch staff yn ymwybodol o'r math o ddiffoddyddion tân sydd ar eich eiddo, ar ba fath o danau y mae'n bosibl defnyddio'r diffoddyddion yn ddiogel a sut i ddefnyddio'r diffoddyddion mewn ffordd ddiogel. Fel rhan o'u hyfforddiant, mae'n bwysig bod gweithwyr yn ymwybodol o'r amgylchiadau lle na ddylent geisio mynd i'r afael â tân.

Mae'r rhan fwyaf o ddiffoddyddion tân modern yn syml i'w defnyddio ac mae cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio'n ddiogel wedi'u hysgrifennu ar y diffoddwr ei hun. Fodd bynnag, os oes amheuaeth, ni ddylai gweithwyr roi eu hunain nac unrhyw un arall mewn perygl, dim ond seinio'r rhybudd, gadael yr eiddo a ffonio'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Gweithdrefnau tân – Cynllun gweithredu mewn tân

Dylid datblygu set addas o weithdrefnau tân i sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud os bydd tân.

Mewn eiddo bach sy'n dod o fewn cwmpas y Canllawiau hyn, cynllun gweithredu mewn tân syml ar gyfer staff ac ymwelwyr fydd yr unig beth sydd ei angen. Dylai'r cynllun syml nodi'r camau y dylid eu cymryd ar ôl darganfod tân, a beth i'w wneud wrth glywed y larwm tân (os oes un ar waith), er mwyn sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn gadael yr eiddo yn ddiogel, yn ddi-oed a galw'r gwasanaeth tân ac achub.

Mewn eiddo o fwy nag un llawr, dylid darparu hysbysiadau gweithredu mewn tân mewn manau amlwg i ddarparu gwybodaeth am ba gamau i'w cymryd os bydd tân, a lleoliad y man ymgynnull.

Hyfforddiant i staff

Mae'n bwysig bod yr holl staff yn ymwybodol o'r risgiau tân yn yr eiddo a'r camau i'w cymryd os bydd tân, nid yn unig er eu diogelwch eu hunain, ond er diogelwch cwsmeriaid, ymwelwyr ac ati hefyd.

Dylai pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant diogelwch tân pan gânt eu cyflogi gyntaf a dylid eu hatgoffa o bryd i'w gilydd – bob blwyddyn fel arfer – yn ogystal â phan fyddant yn agored i risgiau newydd, er enghraifft wrth gyflwyno offer newydd neu newid yn eu rôl. Dylai hyfforddiant fod yn berthnasol i ddefnydd, maint a risg yr eiddo.

Yn y rhan fwyaf o eiddo bach, bydd hyn yn cynnwys mynd â staff drwy'r gweithdrefnau tân, gan gynnwys eu gwneud yn ymwybodol o:

- unrhyw beryglon tân a risgiau posibl
- lleoliad allanfeydd a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd os bydd tân er mwyn sicrhau bod staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr yn gadael yn ddiogel
- defnyddio diffoddyddion tân yn ddiogel
- sut i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Ymarferion tân

Mewn sawl eiddo bach gyda nifer cyfyngedig o staff a chynlluniau syml, nid yw cynnal ymarfer tân llawn bob blwyddyn, lle mae pawb yn gorfod gadael yr eiddo, yn cael ei ystyried yn hanfodol.

Ond dylech o leiaf fynd drwy'r gweithdrefnau tân gyda'ch staff o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod i gyd yn gyfarwydd â'u rolau a'r camau i'w cymryd pe bai tân.

Fodd bynnag, mae cynnal ymarferion tân cyfnodol (e.e. blynyddol) yn ffordd dda o brofi digonolrwydd eich gweithdrefnau tân a dealltwriaeth staff. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn eiddo fel bariâu, bwytai a siopau lle mae'n ofynnol i staff gynorthwyo i helpu aelodau'r cyhoedd i adael yr adeilad.

Os yw eich eiddo yn rhan o adeilad mwy gyda deiliaid amrywiol, a nifer o denantiaid eraill, bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn ymarferion tân sy'n cael eu trefnu gan landlordiaid neu asiantau rheoli.

Dylid cadw cofnod addas o hyfforddiant staff ac ymarferion tân (os o gwbl) ar ffurf llyfr log neu gofnod electronig.

Cynnal a chadw a phrofi

Mae'n bwysig bod y mesurau diogelu rhag tân sy'n cael eu darparu yn eich eiddo yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac effeithiol. Dylid rhoi gweithdrefnau profi a chynnal a chadw rheolaidd ar waith, rhai ohonynt y byddwch yn gallu eu cyflawni eich hun, tra bod angen i eraill gael eu gwneud gan gontractwr cymwys sy'n meddu ar hyfforddiant, profiad neu wybodaeth ddigonol.

Dylid cadw cofnod addas o brofion a gwaith cynnal a chadw ar ffurf llyfr log neu, fel arall, gellir cadw cofnodion yn electronig.

Gellir defnyddio rhestr wirio cynnal a chadw a phrofi syml, fel yr enghraifft sy'n cael ei darparu isod, i sicrhau bod eitemau ac offer yn cael eu gwirio a'u profi yn unol â'r canllawiau arfer gorau cyfredol.

Gwiriadau dyddiol

- Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddrysau ymadael yn cael eu datgloi ar ddechrau pob diwrnod a bod modd agor allanfeydd yn hawdd.
- Gwnewch yn siŵr fod llwybrau ymadael yn glir, ac nad yw storio deunyddiau ac ati yn peri rhwystr.

Gwiriadau wythnosol

- Dylid profi systemau larwm tân gan ddefnyddio man galw larwm gwahanol bob wythnos, i sicrhau bod y system yn gweithio, a bod y larwm yn glywadwy ar draws yr eiddo.
- Dylid gwirio drysau sy'n gwrthsefyll tân sydd wedi'u gosod ar risiau i sicrhau bod y dyfeisiau hunan-gau sydd wedi'u gosod yn cau'r drysau yn effeithiol.

Gwiriadau misol

- Dylid cynnal prawf ar yr holl unedau goleuadau dianc brys i sicrhau eu bod yn gweithio pan fydd switshys prawf ar waith.
- Dylid cynnal prawf o unrhyw larymau mwg domestig i sicrhau eu bod yn gweithio.
- Mae angen cynnal archwiliad gweledol o'r holl ddiffoddyddion tân.

Gwiriadau chwe misol

- Dylai systemau larwm tân gael eu harchwilio a'u profi gan gontractwr cymwys.
- Dylid gwirio drysau tân i sicrhau eu bod yn dal mewn cyflwr da, nad ydynt wedi'u difrodi, a'u bod yn dal i lenwi eu fframiau yn glos.

Gwiriadau blynyddol

- Dylai gwaith cynnal a chadw ar oleuadau dianc mewn argyfwng gael ei wneud gan gontractwr cymwys.
- Dylai unrhyw ddiffoddyddion tân gael eu cynnal a'u cadw gan gontractwr cymwys.

6. Rhestr wirio asesu risg tân

Person Cyfrifol (cyflogwr neu berson sy'n rheoli eiddo)

Cyfeiriad yr eiddo:

Enw'r person sy'n cofnodi'r asesiad:

Dyddiad yr asesiad:

Defnydd o'r eiddo:

Nifer y lloriau:

Adeiladwaith:

Nifer y gweithwyr:

Gosodiadau ac offer trydanol

A yw gosodiadau sefydlog yn cael eu harchwilio a'u profi yn gyson bob pum mlynedd?

Ydynt Nac ydynt

A yw offer trydanol cludadwy yn cael eu harchwilio a'u profi yn gyson?

Amh Ydynt Nac ydynt

A yw'r defnydd o lidiau rhydd ac addasyddion trydan yn cael ei osgoi lle bo hynny'n bosibl?

Amh Ydynt Nac ydy

Ysmygu

A oes mesurau digonol ar waith i atal pobl rhag ysmygu yn yr eiddo?

Oes Nac oes

A oes arwyddion 'Dim ysmygu' yn cael eu darparu?

Oes Nac oes

A oes trefniadau addas ar waith ar gyfer y rhai sy'n dymuno ysmygu y tu allan i'r eiddo?

Amh Oes Nac oes

Llosgi bwriadol

A yw'r eiddo wedi'i ddiogelu'n ddigonol i atal mynediad heb awdurdod?

Ydy Nac ydy

A yw deunyddiau llosgadwy, gwastraff a biniau sbwriel yn cael eu storio'n ddiogel yn glir o'r eiddo neu mewn parthau/ystafelloedd pwrpasol?

Amh Ydynt Nac ydynt

Systemau gwresogi a gwresogyddion cludadwy

A yw systemau gwresogi sefydlog yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyson?

Amh Ydynt Nac ydynt

A yw gwresogyddion cludadwy yn cael eu harchwilio'n gyson ac yn cael eu defnyddio'n ddiogel?

Amh Ydynt Nac ydynt

Coginio

A oes mesurau digonol ar waith i atal tanau yn sgil coginio?

Amh Oes Nac oes

A yw hidlwyr a dwythellau yn cael eu glanhau'n rheolaidd?

Amh Ydynt Nac ydynt

Cadw tŷ

A yw safon cadw tŷ'n ddigonol i atal deunyddiau a gwastraff llosgadwy rhag cronni?

Ydy Nac ydy

A yw deunyddiau llosgadwy yn cael eu cadw ar wahân i ffynonellau tanio a gwres?

Ydynt Nac ydynt

Contractwyr

A yw contractwyr sy'n gwneud gwaith yn yr eiddo yn destun rheolaethau diogelwch tân addas?

Ydynt Nac ydynt

Sylweddau peryglus

A oes mesurau addas ar waith i fynd i'r afael â'r peryglon tân sy'n gysylltiedig â defnyddio a storio sylweddau peryglus?

Amh Oes Nac oes

Peryglon tân sylweddol eraill

A oes unrhyw beryglon tân sylweddol eraill yn yr eiddo?

Oes Nac oes

Os yw'r ateb i'r cwestiwn uchod yn gadarnhaol, rhestrwch bob perygl ac unrhyw fesurau rheoli i leihau'r perygl o dân yn y blwch isod.

Ffyrdd o ddianc

A yw pob llwybr dianc yn cael ei gadw'n glir o rwystrau i alluogi pobl i ddianc yn ddiogel?

Ydy Nac ydy

A yw'r holl allanfeydd tân yn agor yn hawdd ac ar unwaith?

Ydynt Nac ydynt

A yw'r pellteroedd yn rhesymol?

Ydynt Nac ydynt

A oes rhagofalon addas ar waith ar gyfer pob ystafell fewnol?

Amh Oes Nac oes

Mewn eiddo tri llawr, a yw'r grisiau'n cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag tân, gan gynnwys drysau sy'n cau eu hunain ac yn gwrthsefyll tân?

Amh Ydynt Nac ydynt

A oes trefniadau rhesymol ar waith ar gyfer symud gweithwyr anabl a phobl anabl eraill o'r eiddo yn ddiogel?

Amh Oes Nac oes

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

Goleuadau dianc mewn argyfwng

A oes safon resymol o oleuadau dianc brys i oleuo llwybrau dianc ac ardaloedd heb olau naturiol?

Amh Oes Nac oes

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

Arwyddion a hysbysiadau diogelwch tân

A oes safon resymol o arwyddion allanfeydd tân ac arwyddion diogelwch tân?

Amh Oes Nac oes

A yw rhybuddion gweithredu mewn tân, sy'n manylu ar y camau i'w cymryd os bydd tân, wedi'u darparu a'u gosod mewn lleoliadau amlwg?

Amh Ydynt Nac ydynt

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

Ffyrdd o roi rhybudd mewn achos o dân

A oes system larwm tân drydanol addas ar waith?

Amh Oes Nac oes

A oes synwryddion mwg/gwres awtomatig ar gael,
gyda nifer a chwmpas digonol?

Amh Oes Nac oes

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

Diffoddyddion tân llaw

A oes darpariaeth resymol o ddiffoddyddion tân?

Amh Oes Nac oes

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

Rheoli diogelwch tân

A oes rhywun wedi cael ei benodi i reoli diogelwch tân?

Oes Nac oes

A yw'r gweithdrefnau mewn achos o dân yn addas ac wedi'u cofnodi'n briodol?

Ydynt Nac ydynt

A yw pob gweithiwr yn cael cyfarwyddyd a hyfforddiant rheolaidd ar y camau i'w cymryd os bydd tân?

Ydynt Nac ydynt

A yw gweithwyr sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel wardeiniaid tân, yn cael hyfforddiant ychwanegol i gyflawni eu rolau?

Amh Ydynt Nac ydynt

A oes gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod llwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir a bod allanfeydd tân yn parhau i fod yn hawdd eu hagor?

Ydynt Nac ydynt

A oes trefn brofi fisol a blynyddol ar waith ar gyfer y goleuadau dianc brys?

Amh Oes Nac oes

A oes profion wythnosol a chynnal a chadw ac arferion gwasanaethu rheolaidd ar waith ar gyfer y system larwm tân ac unrhyw synwryddion awtomatig?

Amh Oes Nac oes

A yw'r diffoddyddion tân yn cael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol?

Amh Ydynt Nac ydynt

A oes cofnodion yn cael eu cadw o waith profi a chynnal a chadw?

Ydynt Nac ydynt

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

Cynllun gweithredu

Os oes tic gyferbyn ag ymateb negyddol yn unrhyw un o'r blychau uchod, dylid disgrifio'r diffygion isod, ynghyd â chamau gweithredu arfaethedig ar gyfer eu cywiro.

Eitem	Diffyg	Camau gweithredu arfaethedig	Amserlen	Person cyfrifol
1				
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				

7. Cyfeiriadau

- Canllaw Diogelwch Tân Rhif 1 yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol – Swyddfeydd a siopau
www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-offices-and-shops
- Canllaw Diogelwch Tân Rhif 2 yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol – Ffatrioedd a warysau
www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-factories-and-warehouses
- Canllaw Diogelwch Tân Rhif 6 yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol – Mannau ymgynnull bach a chanolig
www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-small-and-medium-places-of-assembly
- Canllaw Atodol yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol – Ffyrdd o ddianc i bobl anab
www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-means-of-escape-for-disabled-people